

Cyhoeddiad ar gyfer y Wefan

ParentPay – ein gwasanaeth talu ar-lein newydd

Rydym yn falch o gyhoeddi y byddwn, cyn bo hir, yn derbyn taliadau ar-lein ar gyfer eitemau megis cludiant a thripiâu ysgol. Trwy ddefnyddio gwefan ddiogel o'r enw ParentPay, gallwch dalu ar-lein gyda'ch cerdyn debyd neu gredyd. ParentPay fydd y ffordd orau gennym i chi wneud taliadau i'r ysgol.

Beth yw'r manteision i rieni a disgyblion?

- Mae ParentPay yn hawdd i'w ddefnyddio a bydd yn rhoi rhyddid i chi wneud taliadau ar-lein pryd bynnag a ble bynnag y mynnoch, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos
- Defnyddir technoleg gyda'r diogelwch gorau sydd ar gael, i sicrhau y bydd eich arian yn ein cyrraedd yn ddiogel – gan roi tawelwch meddwl i chi
- Gellir talu gyda cherdyn credyd/debyd neu hefyd trwy 'PayPoint'
- Bydd eich hanes a'ch datganiadau talu llawn ar gael i chi yn ddiogel ar-lein ar unrhyw bryd.
- Ni fydd rhaid i'ch plant boeni am golli arian yn yr ysgol

Beth yw'r manteision i'n hysgol?

- Gallwch ein helpu i leihau baich gwaith ein staff i gyd gan na fydd angen casglu na chyfrif arian parod na hel dyledion.
- Bydd gennym fwy o amser i roi cymorth addysgol i'ch plentyn a bydd yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n ddiraffferth.
- Bydd yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Bydd defnyddio ParentPay hefyd yn sicrhau bod pob trafod ariannol yn ddiogel – bydd yn ein helpu i ddileu'r costau sy'n gysylltiedig ag ymdrin ag arian parod yn ddiogel yn yr ysgol.
- Po fwyaf o rieni sy'n defnyddio ParentPay, y mwyaf yw'r manteision i'r ysgol.

Sut i ddechrau defnyddio ParentPay?

Cyn bo hir, byddwn yn anfon manylion mewngofnodi atoch, er mwyn i chi allu cychwyn eich cyfrif. Unwaith y byddwch wedi derbyn y manylion hyn:

- Ewch i www.parentpay.com
- Rhowch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair dros dro yn y blychau perthnasol ar y dudalen gartref. O.N. Dim ond unwaith y byddwch yn defnyddio'r manylion hyn; bydd gofyn i chi ddewis eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair eich hun yn ystod y broses gofrestru.
- Darparwch yr holl wybodaeth berthnasol a dewiswch enw defnyddiwr a chyfrinair newydd ar gyfer eich cyfrif – cofiwch roi eich cyfeiriad e-bost er mwyn i ni allu anfon derbynebau a nodiadau atgoffa atoch.
- Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r broses gofrestru, gallwch ddechrau ychwanegu eitemau at eich basged yn syth a chwblhau eich taliad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Swyddfa Gyllid yr ysgol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.parentpay.com/parents/what-parentpay-does